**Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar**

**Blant sy'n Derbyn Gofal**

**Dydd Mercher 30 Tachwedd 2016**

**12.30–13.30**

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol:**

David Melding AC – Cadeirydd

Julie Morgan AC

Lee Waters AC

Mark Isherwood AC

**Yn bresennol:**

Paula Foley – Staff Cymorth Jenny Rathbone AC

Tom Davies – Staff Cymorth Julie Morgan

Sian Thomas – Uwch Ymchwilydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Arsylwi

Deborah Jones – Prif Weithredwr Voices From Care

Rhian Williams – Cynorthwy-ydd Personol/Ysgrifennydd Gweinyddol, Voices From Care – yn cymryd y cofnodion

Carol Floris – Cydgysylltydd Cyngor a Chymorth, Voices From Care

Christopher Dunn – Rheolwr Rhaglenni, Voices From Care

Jennifer Coleman – Aelod, Voices From Care

Dr. Louise Roberts – Cyswllt Ymchwil, CASCADE, Prifysgol Caerdydd

Y Parchedig Philip Mangham, Cynghorwr y Gwasanaeth Addysg Catholig dros Gymru

Rachel Thomas – Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru

Tom Davies – Cymdeithas y Plant

Menna Thomas – Barnardo's Cymru

Sean O'Neill – Plant yng Nghymru

Dr. Emily Warren – Cyfarwyddwr Rhwydwaith Maethu Cymru

Maria Boffey – Rhwydwaith Maethu Cymru

Charlotte Wooders – Rhwydwaith Maethu Cymru

**Cafwyd ymddiheuriadau gan:**

Dan Willis – Prif Weithredwr Stepping Stones Group

Dafydd Elis-Thomas AC

Neil Hamilton AC

**CROESO A CHYFLWYNIAD GAN Y CADEIRYDD**

Agorodd DM y cyfarfod drwy groesawu pawb, ac estyn croeso arbennig i'r rhai a oedd yn newydd. Cafwyd cyflwyniadau rownd y bwrdd a rhoddodd DM drosolwg byr o'r Grŵp ar gyfer yr Aelodau newydd a oedd yn bresennol.

**COFNODION**

Nodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2016 ac fe'u cymeradwywyd.

**Materion yn codi**

Gofynnodd DJ am ohirio'r adroddiad cynnydd am grŵp o bobl ifanc y mae Voices From Care yn gweithio arno ar hyn o bryd gyda Sir Gaerfyrddin, a chytunwyd ar hynny.

Cadarnhaodd DM fod Estyn wedi llunio adroddiad 'Codi cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal'. Bydd yr adroddiad yn rhan o'r dystiolaeth ar gyfer Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant ac anogodd DM yr aelodau i ddarllen yr adroddiad.

**CYNLLUN GWAITH Y GRŴP TRAWSBLEIDIOL AR BLANT SY'N DERBYN GOFAL AR GYFER 2016**

Dywedodd LW ei fod yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus; bydd ymchwiliad gan y Pwyllgor i wasanaethau plant sy'n derbyn gofal yn cychwyn yn 2017. Byddai'r ffocws cychwynnol ar faterion cyffredinol yn ymwneud ag effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus hefyd yn debygol o wneud gwaith mwy penodol ynghylch gwasanaethau penodol i blant sy'n derbyn gofal.

Holodd DJ ynghylch y posibilrwydd o gysylltu pobl ifanc â'r ymchwiliad. Roedd LW yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol i wahanol sefydliadau gysylltu â chlercod y Pwyllgor yn y lle cyntaf. Roedd DM yn teimlo y byddai hyn yn gyfle gwych, yn enwedig os bydd pobl ifanc yn gallu

cymryd rhan uniongyrchol, ac os bydd gwaith y Pwyllgor yn edrych go iawn ar effeithiolrwydd ac yn cyflwyno argymhellion pwysig.

O safbwynt Rhwydwaith Maethu Cymru, roedd EW yn teimlo bod y gwaith hwn yn amserol iawn ac i'w groesawu'n fawr.

**CAM I'W GYMRYD: LEE WATERS I ANFON GWYBODAETH BELLACH YMLAEN**

Dywedodd DM ei fod yn awyddus i adrodd ar Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant, a gyfarfu ym mis Medi/Hydref. Caiff y grŵp ei gadeirio gan DM ar gais y Gweinidog, gan gynghori ar y ffordd orau i Lywodraeth Cymru wneud gwaith cenedlaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rheini sydd ar gyrion gofal.

Cafwyd trafodaeth fer ynghylch y cynllun gwaith ar gyfer 2016. Hoffai DM ddefnyddio rhywfaint o'r wybodaeth a ddaw oddi wrth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ond y prawf allweddol fyddai sut y mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar Blant sy'n Derbyn Gofal yn dylanwadu ar y Cynulliad. Roedd SON yn teimlo y byddai cyfres o ganlyniadau gan y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar eiriolaeth. Gofynnodd EW sut y mae'r cynllun Pan Fydda i'n Barod yn gweithio'n ymarferol. Roedd RT yn teimlo bod darn cyfredol o waith y mae swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn ei wneud ynghylch safbwyntiau'r rheini sy'n gadael gofal ar ddarparu pecynnau cymorth yn cysylltu â'r cynllun gwaith. Dywedodd TD fod Cymdeithas y Plant yn edrych ar eithrio'r rheini sy'n gadael gofal rhag talu'r dreth gyngor.  Roedd DM yn teimlo bod yr agenda'n fawr a bod cryn dipyn i'w gynnwys mewn un sesiwn.

**<u>CYFLWYNIAD: EARLY PARENTHOOD FOR YOUNG PEOPLE IN AND LEAVING CARE IN WALES</u>**

Cyflwynodd Dr Louise Roberts ei hun a J. Coleman, aelod gweithgar o Voices From Care. Tynnodd y cyflwyniad sylw at dair thema allweddol o ofal y mae rhieni'n mynd drwyddynt – stigma, gwahaniaethu a chymorth. Dosbarthodd CF gopïau o'r Datganiad o Bryder, gan ddatgan yn fyr ei bod yn awyddus i gynnal y momentwm ar y materion canlynol

- The Improving Outcomes for Children Ministerial Group – Phase 2 Work Programme should include a further work strand on developing support and guidance for care experienced young parents
- The revised and extended guidance on corporate parenting outlined in the above work programme should include a commitment to care experienced young parents and their children.
- The need for parent and child foster placements should run through Phase 2 work of the National Fostering Framework.
- The National Approach to Statutory Advocacy should include advocacy provision for care experienced young parents.
- The Welsh Government should develop a mechanism by which local authorities are required to report on data recording how many care leavers become parents and the outcomes for these parents and their children.
- The Welsh Government should support the setting up of a good practice sharing forum.

Diolchodd DM i LR, CF a JC am gyflwyniad cryno ac effeithiol, gyda rhestr o bwyntiau teimladwy a gyflwynwyd mewn ffordd rymus dros ben. Ychwanegodd DM mai dyma'r rheswm pam mae grwpiau trawsbleidiol yn bodoli: fel bod gwleidyddion yn gallu deall. Cytunodd JM fod y cyflwyniad yn un ardderchog a grymus iawn.

**CAM I’W GYMRYD: RW I RANNU COPI ELECTRONIG O'R CYFLWYNIAD**

Cododd MI y cwestiwn ynghylch pryd mae plant yn ddigon hen i ofyn cwestiynau. Dywedodd CF y gall darparwyr eiriolaeth weithio gyda phlant ac mae Voices from Care yn derbyn galwadau yn ymwneud ag eiriolaeth gan blant a rhieni fel ei gilydd. Ychwanegodd CF fod angen edrych y cwestiynau hyn o safbwynt eiriolaeth gan fod gwrthdaro rhwng gweithwyr gadael gofal a gwasanaethau cymdeithasol gan fod gweithwyr gadael gofal yn gweithio i'r un awdurdod lleol.

**UNRHYW FATER ARALL**

Nid chodwyd unrhyw fater arall.

**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

RW i gydlynu ag S. Sharpe ac anfon manylion y cyfarfod nesaf ymlaen at yr aelodau.

**CAM I’W GYMRYD: RW I GYDLYNU AG S. SHARPE**

Diolchodd DM i bawb am fod yn bresennol. Daeth y cyfarfod i ben gan nad oedd unrhyw fater arall.